

**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**  
**6 Hydref 2025 am 8.00 o'r gloch yn Festri Capel Gwynfil, Llangeitho**  
**Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,**  
**6 October 2025 at 8.00 pm at Gwynfil Chapel Vestry, Llangeitho**

**Presennol/Present**

Cyng Gwilym Evans (Cadair/Chair), Rhian Turner, Myrddin James, Emyr Jones, Gwenfair Owen, Paul Rooke, Sarah Evans, PCSO John Evans & Cyng Rhodri Evans

**Ymddiheuriadau/Apologies** – Cyng/Cllr Beryl Evans, Daniel Thomas, Gerwyn Ebenezer & Ieuan Gwynne

**Adroddiad gyda Emyr Lake am cyflwr Afon Aeron / Report with Emyr Lake about the condition of the River Aeron**

Croesawyd Mr Emyr Lake i'r cyfarfod i drafod sefyllfa'r afonydd lleol ac yn benodol yr Afon Aeron, beth yw'r problemau mwya amlwg wrth bod lefelau'r dwr yn yr afonydd yn gostwng a oedd yn ganlyniad i'r niferoedd o bysgod yn lleihau. Mae Mr Lake yn gweithio'n wirfoddol i monitro iechyd a diogelwch yr afonydd. Soniodd fel roedd lefelau uchel o aliminiwm yn yr afon o achos coedwigaeth, yn lleihau y nifer o bryfed a bwyd i'r pysgod, a fel roedd rhoi calch yn y dwr yn helpu i gael mwy o bryfed a felly pysgod nol yn yr afon. Cytunwyd bod Mr Lake yn ymweld â'r afon Aeron eto yn y Gwanwyn a cymerid samplau a siarad a Hayley Jobson ynglyn a gael syniadau i wella cyflwr yr Afon Aeron ac i ddennu'r pysgod nôl i'r afon. Hefyd derbyniwyd cadarnhad wrth Mr Lake ei fod yn mynd i ymchwilio mewn i'r ystadegau niferoedd y pysgod yn yr afon a gafodd eu gymerid rai blynyddoedd nôl. *Mr Emyr Lake was welcomed to the meeting to discuss the situation of the local rivers, and specifically the River Aeron, what the most obvious problems are when river water levels drop, which was a result of declining fish numbers. Mr Lake works voluntarily to monitor the health and safety of the rivers. He spoke about the high levels of aluminium found in the river as a result of forestry, led to the decline in insect numbers in the river which reduced the fish population, and how putting lime in the water reversed this resulting in more fish. It was agreed that Mr Lake would visit the River Aeron again in the Spring, take samples, and speak with Hayley Jobson to gather ideas to improve the condition of the River Aeron and to attract fish back to the river. Confirmation was also received from Mr Lake that he would investigate the fish population statistics in the river, which had been taken a few years ago.*

**Adroddiad yr Heddlu / Police Report**

Derbyniwyd adroddiad ar lafar oddi wrth yr Heddlu, cylchredwyd posteri ar sut i 'Ofalu am eich Olew Domestig, Siediau a Adeiladau Allanol' / *A verbal report was received from the Police, posters were circulated on how to 'Take Care of your Domestic Oil, Sheds and Outbuildings'.*

**Datgan Diddordeb/Declaration of Interest** – Neb / No one

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwenfair Owen ac eiliwyd gan Cyng Emyr Jones.

*The minutes of the previous meeting were passed correct – proposed by Cllr Gwenfair Owen & seconded by Cllr Emyr Jones.*

### **Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes**

- Cyng Myrddin James yn mynd i asesu symud y biniau ail-gylchu, ar bwys Dolaeron, Llangeitho, ychydig nôl yn agosach i'r arwyddion / *Cllr Myrddin James to assess and move the recycling bins, near Dolaeron, Llanybi, slightly back closer to the signs*
- Cyng Gwilym Evans & Cyng Emyr Jones yn mynd i gwrdd i drwsio'r ffens ar ddaear Gelli Angharad, Penuwch / *Cllr Gwilym Evans & Cllr Emyr Jones will meet to repair the fence on the land at Gelli Angharad, Penuwch.*
- Angen atgoffa'r Cyngor Sir bod cyflwr y ffordd lawr am Pantyresgair, Penuwch, SY25 6RA yn wael ac angen sylw / *Need to remind the County Council that the condition of the road down to Pantyresgair, Penuwch, SY25 6RA is poor and requires attention*

### **Cyfrifon/Accounts**

- Cyflog Clerc – Medi £129.14 – *Clerk salary for September £129.14*
- HMRC Tax £6.60
- Gareth Jones, Archwiliwr Mewnol / *Internal Auditor* £30.00
- Neuadd Jiwibili £94 (Llogi ystafell/Room Hire)
- Festri Capel Penuwch £16 (Llogi ystafell/Room Hire) – Gofynnir i'r Cadeirydd i ble fyddai'r arian yma yn mynd gan nad yw'r Festri bellach yn cael ei ddefnyddio – derbyniwyd cadarnhad bod dal costau efo'r Capel gan nad oedd y Capel wedi'u gau eto / *The Chair was asked to confirm where this money would be going since the Vestry is no longer in use – confirmation was received that costs are still associated with the Chapel which has not yet been closed.*
- Festri Capel Gwynfil £32 (Llogi ystafell/Room Hire)
- Un Llais Cymru £164 (Aelodaeth/Membership)
- Balans y banc ar 05.10.25 - £10,261.33 – *Bank Balance as 05.10.25*

Cytunwyd i'w talu ar gynnig Cyng Gwenfair Owen ac eiliwyd gan Cyng Rhian Turner  
*Payments to be made – proposed by Cllr Gwenfair Owen and seconded by Cllr Rhian Turner*

### **Gohebiaeth/Correspondence**

- Llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol, wedi'u dderbyn oddi wrth Capel Gwynfil / *Letter of thanks for the financial support received from Gwynfil Chapel.*
- Llythyr o ddiolch am gymerid gofal y cerflwynau Gelli Angharad wedi'u dderbyn oddi wrth Angela Morgan / *Letter of thanks for taking charge of the Statutes at Gelli Angharad, received from Angela Morgan.*
- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Linda Saunders yn gofyn am ganiatad i lawrlwytho cofnodion o gwefan y Cyngor Cymuned – cytunwyd / *Email received from Linda Saunders requesting permission to download minutes from the Community Council website – agreed.*
- E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Nigel Bird yn gofyn am weld cyfrifon diwedddara ar gwefan y Cyngor Cymuned, soniwyd bod yna broblem efo'r dudalen gwefan a bod Cyng Beryl Evans yn mynd i gynorthwyo'r clerc i'w llwytho, neu cysylltu gyda'r cwmni sydd yn hostio'r gwefan. / *Email received from Nigel Bird requesting to see the latest accounts on the Community Council website, it was mentioned that there was a problem with the website page and that Councillor Beryl Evans is going to assist the clerk in uploading it, or contact the hosting company.*

- Derbyniwyd e-bost ac ymddiswyddiad Mick Tordoff a Nigel Bird o edrych ar ôl yr hen gysgodfan bws tro pair, cytunwyd i arddangos poster yn gofyn am grŵp o wirfoddolwyr i gymerid drosodd / *An email and resignation of Mick Tordoff and Nigel Bird were received and accepted from looking after the old bus shelter, it was agreed to display a poster asking for a group of volunteers to take over.*

### **Cyngor Sir Ceredigion County Council**

- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr, Cyngor Sir Ceredigion yn ein hysbysu fod cyfnod Cyng Gwennifer Owen fel Gynrychiolwr yr Awdurdodau Llai ar Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Gymunedol Rhos Helyg yn dod i ben ar ôl pedair blynedd. Trafodwyd y swydd a chytunwyd ar gynnig Cyng Rhian Turner ac eiliwyd gan Cyng Myrddin James i ail eitho Cyng Gwennifer Owen eto, derbyniwyd y swydd / *Email was received from the Governors' Support Officer, Ceredigion County Council, informing us that Councillor Gwennifer Owen's term as Representative of the Local Authorities on the Governing Body of Rhos Helyg Community Primary School is coming to an end after four years. The position was discussed, and it was proposed by Councillor Rhian Turner and seconded by Councillor Myrddin James to re-elect Councillor Gwennifer Owen, position was accepted.*
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth Elin Mai Williams, Swyddog Datblygu (Diwylliant), Cyngor Sir Ceredigion yn cyflwyno ei hun fel rhywun newydd sy'n gweithio ar brosiect ymchwil sy'n archwilio sut mae pobl yn diffinio ac yn profi diwylliant yn eu cymunedau ac am awgrymiadau/syniadau/fynychu digwyddiad neu hyd yn oed cynnal sesiwn fyr ar y cyd i gasglu barn cyfronogwyr. Cynnigwyd iddi fynychu rhai digwyddiadau'r ardal, e.e. Ffair Nadolig, Drama'r Ffermwyr Ifainc, Merched y Wawr, Carolau Clwb Ffermwyr Ifainc, Gwasanaeth Coffa'r Pentref neu'r digwyddiad 'Camu Cyn Calan' / *An email was received from Elin Mai Williams, Development Officer (Culture), Ceredigion County Council, introducing herself as someone new working on a research project exploring how people define and experience culture in their communities and asking for suggestions/ideas/attending an event or even holding a short joint session to gather participants' views. She was offered the opportunity to attend some local events, e.g., Christmas Fair, Young Farmers' Drama, Merched y Wawr, Young Farmers' Club Carols, Village Commemoration Service, or the 'Camu Cyn Calan' event.*

### **Prosiect Waun Maenllwyd Project**

Cytunwyd i aros am gyfarfod gan Gyngor Cymuned Llanddewi Brefi, ac ymuno efo hwy i drafod y ffordd ymlaen / *It was agreed to wait for a meeting with Llanddewi Brefi Community Council, and join them to discuss the way forward.*

### **Caru'ch Cymuned 2025 Love Ceredigion**

Dim canlyniadau hyd yma / *No results as of yet.*

### **Un Llais Cymru/One Voice Wales**

Cyhoeddwyd bod y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol wedi'u ganslo / *It was announced that the Annual General Meeting has been cancelled.*

**Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- Clerc wedi gwneud cais am beiriant diffib i'w ddodi yn y ciosc yn Rhydypanydd oddi wrth Sefydliad Calon Prydeinig / *Clerk has applied for a defibrillator to be placed in the kiosk in Rhydypanydd from the British Heart Foundation.*
- Soniwyd nad oedd y llinellau gwyn wedi'u ail-baentio yn Llangeitho / *It was mentioned that the white lines had not been repainted in Llangeitho*

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 3ydd o Dachwedd 2025 yn Neuadd Jiwibili Llangeitho am 8 o'r gloch.

*The next meeting will be held at Jiwibili Hall, Llangeitho on Monday 3<sup>rd</sup> November 2025 at 8.00 o'clock.*